Rhif: WG50033

Llywodraeth Cymru
# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cydlynu Trefniadau Derbyn i Ysgolion

Ymgynghoriad ar gydlynu trefniadau derbyn i ysgolion

Mawrth 2024

**ISBN 978-1-83625-149-1**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gydlynu trefniadau derbyn i ysgolion. Bydd y Rheoliadau yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio cynllun ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion a gynhelir (ac eithrio ysgolion arbennig a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir, ond gan gynnwys ysgolion preswyl) yn eu hardal.

## Camau i'w cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:
Y Gangen Llywodraethiant, Trefniadaeth a Derbyniadau i Ysgolion
Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: SGOA@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig, ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
Dolen i'r ddogfen ymgynghori: Cydlynu trefniadau derbyn i ysgolion

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Crynodeb o'r ymatebion | 5 |
| Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad | 5 |
| Cwestiwn 1 | 5 |
| Cwestiwn 2 | 6 |
| Cwestiwn 3 | 7 |
| Cwestiwn 4 | 7 |
| Cwestiwn 5 | 8 |
| Cwestiwn 6 | 9 |
| Cwestiwn 7 | 9 |
| Cwestiwn 8 | 10 |
| Cwestiwn 9 | 11 |
| Y Camau Nesaf | 11 |
| Atodiad A - Rhestr o'r ymatebwyr | 13 |

## Cyflwyniad

Mae adran 86 (1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i rieni gael nodi ysgol a ffefrir ganddynt. Mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy roi gwybodaeth i rieni sy'n cynnwys manylion holl ysgolion ardal yr awdurdod lleol a sut i wneud cais.

Ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn fel rheol, ac felly yr awdurdod lleol sy’n darparu ffurflenni cais. Ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn. Mae'r awdurdod lleol yn cynnwys yn ei wybodaeth i rieni y meini prawf o ran goralw sydd gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, er mwyn rhoi syniad i'r rhieni o flaenoriaethau’r ysgolion wrth iddynt fynd ati i ystyried ceisiadau am leoedd. Mae'r awdurdod lleol yn cynghori rhieni i wneud cais yn uniongyrchol i'r ysgolion hynny gan ddefnyddio ffurflen a ddarperir gan yr ysgol, a fydd fel rheol yn gofyn am wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i feini prawf goralw penodol yr ysgol.

Mae adran 86(2) o Ddeddf 1998 yn datgan bod yn rhaid i'r awdurdod derbyn gynnig lle yn yr ysgol a ffefrir fel rheol, os oes lle ar gael. Yn nwylo'r awdurdod derbyn, felly, y mae'r ddyletswydd i gynnig y lle.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynnig Llywodraeth Cymru i gyflwyno Rheoliadau newydd sydd i'w gwneud o dan adran 89B o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn i ysgolion.

Bydd y Rheoliadau yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio cynllun bob blwyddyn ysgol ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion a gynhelir (ac eithrio lleoedd chweched ddosbarth ysgolion, ysgolion arbennig a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir, ond gan gynnwys ysgolion preswyl) yn eu hardal. Rhaid llunio’r cynllun cymhwysol cyntaf a’i fabwysiadu erbyn 1 Ionawr 2025 ac erbyn 1 Ionawr ar gyfer pob blwyddyn ddilynol. Bydd y cynllun cymhwysol cyntaf yn 2025 yn berthnasol i drefniadau derbyn yn y flwyddyn ysgol 2027 i 2028.

Cynigir diwygiad cysylltiedig i Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnwys crynodeb o gynllun cydlynol yr awdurdod lleol yn ei brosbectws cyfansawdd, fel y penderfynwyd arno bob blwyddyn, ynghyd ag esboniad clir o'r camau yn y broses o wneud cais am le mewn ysgol.

## Crynodeb o’r ymatebion

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 28 Tachwedd 2023 a 23 Chwefror 2024. Daeth 22 o ymatebion i law, 13 ohonynt gan awdurdodau lleol, 3 gan ysgolion cynradd, un gan aelod o'r cyhoedd ac un ymateb dienw. Cafwyd pedwar ymateb ychwanegol gan sefydliadau eraill gan gynnwys Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, Estyn, UCAC a'r Gymdeithas Seciwlar. O'r 22 ymateb a gafwyd, roedd 9 yn dymuno aros yn ddienw.

Ceir rhestr o’r sefydliadau a ymatebodd yn **Atodiad A**.

Roedd mwyafrif y cwestiynau yn gofyn am ateb 'cytuno', 'anghytuno', neu 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', ynghyd ag unrhyw sylwadau ategol. Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn. Fodd bynnag, ystyriwyd yr holl ymatebion a atebodd o leiaf un cwestiwn neu a roddodd sylwadau ar y cynigion. Mae'r canrannau a ddangosir ym mhob un o'r tablau isod wedi'u seilio ar y nifer a atebodd y cwestiwn penodol hwnnw. Nid yw'r crynodeb hwn yn gofnod cynhwysfawr o'r holl sylwadau a wnaed, ac nid yw absenoldeb mater penodol yn nodi ei fod wedi'i anwybyddu na'i fod yn llai pwysig.

## Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Yn y crynodeb hwn, rydym wedi grwpio dadansoddiadau'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn yr un modd ag yr ymddangosodd y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

## Cwestiwn 1

A ydych yn cytuno â'r cynnig i osod gofyniad ar awdurdodau lleol i gydlynu trefniadau derbyn disgyblion ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardal?

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 17 | 77% |
| **Anghytuno** | 2 | 9% |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 3 | 14% |
| **Cyfanswm** | 22 | 100% |

Roedd mwyafrif sylweddol yr ymatebwyr (77%) yn cytuno â'r Rheoliadau drafft ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn i ysgolion.

Darparodd rhai ymatebwyr sylwadau ategol o blaid y dull gweithredu, gan egluro sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â'u trefniadau presennol ar gyfer trefniadau derbyn cydlynol ac yn symleiddio'r broses i rieni/gofalwyr. Ni ddarparwyd unrhyw sylwadau ategol gan y ddau ymatebydd a anghytunodd.

Mae'r adborth a dderbyniwyd gan ysgolion yn cadarnhau bod manteision o ran lleihau gwaith gweinyddol i ysgolion sydd hefyd yn rhoi sicrwydd o ran niferoedd disgyblion drwy osgoi'r broblem o rieni'n dal mwy nag un o leoedd mewn ysgolion.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion yn llawn ac ar sail y ganran a gytunodd â'r cynnig a'r sylwadau ategol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen i wneud y Rheoliadau hyn, yn unol ag adran 89B o Ddeddf 1998.

## Cwestiwn 2

Beth yn eich barn chi yw manteision neu anfanteision cydlynu trefniadau derbyn i ysgolion?

Atebwyd y cwestiwn hwn gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gan roi barn gytbwys ar y cynnig arfaethedig ar gyfer cydlynu trefniadau.

Mae'r sylwadau yn cynnwys barn fod gan y Rheoliadau hyn y potensial i fynd i'r afael ag achosion penodol o aneffeithlonrwydd ac ansicrwydd yn y system bresennol. Fodd bynnag, ychwanegodd Estyn bod angen ystyried yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gwasanaethu buddiannau gorau rhieni a dysgwyr, ac yn parchu ymreolaeth cyrff llywodraethu ar yr un pryd.

Mae llawer o'r ymatebwyr o'r farn y bydd y cynnig yn symleiddio'r broses dderbyn, ac y gall hynny yn ei dro leihau'r amser a'r ymdrech y mae rhieni ac awdurdodau derbyn yn eu gwario ar y mater.

Dywedodd un ymatebydd fod trefniadau cydlynol yn rhoi cynnig o un lle ysgol i rieni ar gyfer eu plentyn ar yr un diwrnod, ac ni fyddai rhieni'n dal eu gafael ar fwy nag un lle ysgol. Mae'r cynnig sawl lle ysgol i rieni yn golygu nad yw lleoedd ysgol yn cael eu cynnig i rieni eraill a thrwy hynny'n atal eu plant nhw rhag cael y lleoedd hynny.

Awgrymwyd hefyd bod dull cydlynol yn darparu system decach o ddyrannu lleoedd ac y byddai hefyd yn rhyddhau amser o ran gweinyddiaeth ysgolion.

Roedd rhai o'r anfanteision a grybwyllwyd yn cynnwys cynnydd o bosibl yn llwyth gwaith awdurdodau lleol 'cartref' wrth iddynt ddelio â'r ceisiadau.

Esboniodd un awdurdod lleol sut mae'r meini prawf o ran goralw am leoedd yn amrywio'n fawr rhwng ysgolion yr awdurdod ei hun a phob un o'r ysgolion ffydd yn ei ardal, gyda phob un ohonynt â meini prawf gwahanol ar gyfer goralw. Dywedwyd hefyd pe bai'r broses hon yn cael ei chanoli byddai'r awdurdod lleol yn dal i orfod gofyn i'r ysgolion ffydd ddyfarnu safle pob cais ar eu rhestrau derbyn, fel gwnânt nawr, a byddai hyn yn ychwanegu aneffeithlonrwydd i'r broses.

Mae rhai awdurdodau lleol llai eu maint yn rhagweld cynnydd yn eu llwyth gwaith, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes problemau goralw.

O ran cyrff llywodraethu, cred Estyn, er bod y cynnig yn dweud nad yw'r cynllun cydlynol yn dileu ymreolaeth cyrff llywodraethu mewn perthynas â phenderfyniadau derbyn, efallai y bydd pryderon ymhlith y cyrff hyn am yr effaith bosibl ar eu gallu i reoli eu derbyniadau'n annibynnol. Gallai gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio a gweithredu'r cynllun derbyn cydlynol achosi heriau o ran gorfodi, yn enwedig os bydd unrhyw awdurdod yn gwrthsefyll y newid neu'n cael trafferth i gydymffurfio'n llawn oherwydd adnoddau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn gwerthfawrogi pob sylw gan yr ymatebwyr ac wedi ystyried y manteision a'r anfanteision.

Hoffem ailddatgan na fydd y cynllun cydlynu trefniadau derbyn yn dileu ymreolaeth unrhyw gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig mewn perthynas â'u trefniadau derbyn na'u penderfyniadau ar bwy i'w derbyn. Ein nod yw symleiddio'r broses ac i'r cyrff llywodraethu weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod rhieni/gofalwyr ddim ond yn cael un cynnig.

## Cwestiwn 3

A ddylai'r gofyniad i ddatblygu cynllun ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn ysgolion gael ei osod ar bob awdurdod lleol neu ar awdurdodau lleol penodol yn unig yng Nghymru unig? Os mai dim ond ar rai yn unig y dylid gosod y gofyniad, ar ba awdurdodau lleol y dylid ei osod?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Pob Awdurdod Lleol** | 16 | 73% |
| **Awdurdodau Lleol penodol** | 4 | 18% |
| **Dim Ymateb** | 2 | 9% |
| **Cyfanswm** | 22 | 100% |

Cadarnhaodd mwyafrif yr ymatebwyr (73%) y dylai fod yn berthnasol i bob awdurdod lleol, gyda rhai'n nodi y byddai gwneud y gofyniad yn berthnasol i bob awdurdod lleol yn sicrhau cysondeb ledled Cymru. Nododd rhai y gallai gwneud y gofynion yn berthnasol i rai awdurdodau lleol yn unig beri dryswch, yn enwedig i rieni/gofalwyr pe byddent yn dymuno symud dros y ffin neu i ardaloedd eraill yng Nghymru.

Roedd 18% o'r ymatebwyr yn teimlo'n gryf y dylai'r Rheoliadau fod yn berthnasol i rai awdurdodau lleol yn unig. Awgrymwyd y dylai'r gofynion fod yn berthnasol i'r ardaloedd hynny lle mae gormod o alw am leoedd mewn ysgolion yn unig, a theimlir na fyddent o fudd i'r ardaloedd hynny heb y broblem honno.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod potensial i'r llwyth gwaith gynyddu ar ddechrau'r broses i rai awdurdodau lleol nad ydynt wedi mabwysiadu trefniadau derbyn cydlynol o'r blaen, ac a fyddent yn sefydlu cynllun derbyn cydlynol newydd a luniwyd yn unswydd. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i seilio ar y sefyllfa bresennol o ran derbyniadau ym mhob awdurdod lleol a allai newid mewn unrhyw flwyddyn benodol. Trwy ymgymryd â'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau drafft, bydd mecanwaith cyson yn cael ei weithredu ledled Cymru. Bydd dull cyson hefyd yn lleihau unrhyw ddryswch i rieni/gofalwyr.

Bydd canllawiau yn cael eu darparu i awdurdodau lleol i'w cefnogi i gyflawni'r gofynion, cyn gwneud y diwygiadau angenrheidiol i'r Cod Derbyniadau Ysgol.

## Cwestiwn 4

A ydych yn ystyried y bydd y Rheoliadau arfaethedig yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol neu ysgolion? Os felly, rhowch fanylion pellach am y costau hyn.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Ydw** | 10 | 45% |
| **Nac ydw** | 10 | 45% |
| **Dim Ymateb** | 2 | 10% |
| **Cyfanswm** | 22 | 100% |

Roedd bron i hanner yr ymatebwyr o'r farn y bydd y Rheoliadau arfaethedig yn arwain at gostau ychwanegol i awdurdodau lleol.

Awgrymodd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig (yng nghwestiwn 1) y byddai hyn yn creu gwaith ychwanegol. Dywedodd un ymatebydd y byddai'r cynnig yn cynyddu baich gweinyddol, gydag un arall yn awgrymu y byddai hyn yn arwain at greu swyddi ychwanegol i fodloni gofynion y Rheoliadau. Awgrymodd un arall, mewn ardal sydd â nifer o Ysgolion Gwirfoddol a Gynhelir, nad yw cynnydd mewn ceisiadau yn gynaliadwy gyda'r adnoddau presennol, a byddai angen swyddog ychwanegol.

Crybwyllodd un ymatebydd yr anhawster nodi, ar hyn o bryd, a fyddai cost ychwanegol na faint o gost ychwanegol fyddai, gan fod costau eisoes yn gysylltiedig â'r system bresennol y byddai disgwyl iddynt leihau o ganlyniad i ddull symlach o weithredu.

Mae un awdurdod lleol, sy'n cefnogi sefydlu gofyniad i awdurdodau lleol gydlynu trefniadau derbyn ac sydd â chynllun ar waith ers nifer o flynyddoedd, yn credu y bydd cynnydd yn llwyth gwaith awdurdodau lleol ar ddechrau'r cylch derbyn, ond y bydd hyn yn cael ei wrthbwyso i raddau ar ddiwedd y broses pan fydd ganddynt lai o waith cydgysylltu cynigion rhieni sydd wedi cael cynnig nifer o leoedd. Ychwanegodd yr awdurdod fod trefniadau cydlynol yn cyflymu'r broses dderbyn ac yn rhyddhau amser ac adnoddau gwerthfawr mewn ysgolion.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'n amlwg bod rhai ymatebwyr yn credu efallai y bydd costau ychwanegol ar ddechrau'r broses ac y gallai'r rheini fod yn wahanol ym mhob awdurdod lleol gan ddibynnu ar nifer yr ysgolion a'r adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, fel y cydnabyddir gan rai ymatebwyr, mae'n bosibl gwneud arbedion o ran adnoddau o dan system gydlynol.

## Cwestiwn 5

A ydych yn ystyried y bydd y Rheoliadau arfaethedig yn arwain at unrhyw arbedion i awdurdodau lleol, ysgolion neu rieni? Os felly, rhowch fanylion pellach am yr arbedion hyn.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Ydw** | 10 | 45% |
| **Nac ydw** | 10 | 45% |
| **Dim Ymateb** | 2 | 10% |
| **Cyfanswm** | 22 | 100% |

Awgrymodd 45% na fyddai arbedion costau. O'r rhai a atebodd 'ydw', dywedodd rhai y bydd arbedion o ran amser a chostau drwy leihau nifer y paneli apêl diangen a pheidio â gorfod gofyn droeon am benderfyniadau.

Dywedodd un ymatebydd y byddent yn disgwyl arbedion yn sgil y cynllun cydlynol gan y byddai'n lleihau'r gwaith i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a staff ysgolion wrth wneud cynigion a rheoli ansicrwydd rhieni/gofalwyr a allai fod yn dal eu gafael ar nifer o gynigion. Awgrymodd ymatebydd arall arbediad o safbwynt rhieni/gofalwyr, oherwydd dim ond unwaith y byddai'n rhaid iddynt wneud cais drwy'r awdurdod yn lle gorfod gwneud ceisiadau lluosog.

Ym marn un awdurdod lleol sydd eisoes yn gweithio yn y ffordd a gynigir, ni fyddai unrhyw newid o ran arbedion. Fodd bynnag, mae barn yn amrywio gyda rhai awdurdodau lleol yn rhagweld costau ychwanegol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Bydd y cynnig yn helpu i sicrhau bod pob disgybl yn cael cynnig lle yn brydlon, ac yn creu arbedion ariannol i lawer o awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn yn yr hirdymor. Yn bwysicach fyth, disgwylir y bydd y cynnig yn lleihau ansicrwydd i rieni a dysgwyr.

## Cwestiwn 6

A ydych yn cytuno y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnwys crynodeb o gynllun cydlynol yr awdurdod lleol yn ei brosbectws cyfansawdd bob blwyddyn, ynghyd ag esboniad clir o'r camau yn y broses o wneud cais am le mewn ysgol?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 15 | 68% |
| **Anghytuno** | 0 | 0% |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 7 | 32% |
| **Cyfanswm** | 22 | 100% |

Mae consensws ymhlith mwyafrif yr ymatebwyr sy'n cytuno y dylid gofyn i'r awdurdod lleol gynnwys crynodeb o gynllun cydlynol yr awdurdod lleol bob blwyddyn yn ei brosbectws cyfansawdd, y dylid sicrhau bod gan rieni wybodaeth dda o'r broses a'i bod wedi cael ei hesbonio'n glir iddynt.

O'r 32% nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno, roedd un o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd angen prosbectws cyfansawdd llawn. Yn hytrach, awgrymodd y gellid llunio a rhannu adran safonol ar gyfer pob Awdurdod Lleol / Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir. Y rheswm am hyn yw eu bod yn teimlo y bydd amrywiadau yn y prosesau derbyn yn parhau ac y gallai hyn achosi problemau eraill o ran cydlynu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Wrth ystyried yr holl ymatebion i'r cwestiwn hwn, a'r bwriad i fwrw ymlaen â gwneud y Rheoliadau hyn, rhaid llunio'r cynllun cymhwysol cyntaf erbyn 1 Ionawr 2025 ("y cynllun cymhwysol cyntaf") ac erbyn 1 Ionawr ar gyfer pob blwyddyn ddilynol (rheoliad 4). Bydd y cynllun cymhwysol cyntaf yn gymwys i drefniadau derbyn yn y flwyddyn ysgol 2027 i 2028. Felly, bydd gofyn i awdurdodau lleol gynnwys crynodeb o'u trefniadau derbyn cydlynol yn eu prosbectws cyfansawdd am y tro cyntaf ym mlwyddyn ysgol 2026 i 2027.

## Cwestiwn 7

Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y Rheoliadau arfaethedig ar gydlynu

trefniadau derbyn ysgolion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
A ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Ni nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr unrhyw ymateb, neu nid oeddent yn gweld unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg. Fodd bynnag, o'r rhai a wnaeth sylw, awgrymodd rhai y byddai cydlynu'r trefniadau yn gwneud rhieni/gofalwyr yn fwy tebygol o ystyried addysg cyfrwng Cymraeg. Nododd un ymatebydd, gan y byddai'r swyddogaeth dderbyn yn cael ei darparu gan yr awdurdod lleol, y byddai gofynion Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, gan ei gwneud yn ofynnol i bob gohebiaeth fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Estyn yn credu y dylai'r Rheoliadau bwysleisio cyfathrebu clir a thryloywder, gan gynnwys rhannu'r holl wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg. Gallai hyn arwain at well dealltwriaeth ymhlith rhieni, gan gynnwys y rhai sy'n siarad Cymraeg yn bennaf. Byddai hyn yn cyd-fynd ag ymdrechion i hyrwyddo defnydd a hygyrchedd y Gymraeg.

Mae effeithiau niweidiol posibl ar y Gymraeg, ym marn rhai ymatebwyr yn cynnwys y sefyllfa lle mae awdurdodau lleol yn cynnig dim ond un lle ysgol i rieni, yn enwedig mewn rhai sefyllfaoedd lle mae rhieni neu ofalwyr yn dewis ysgol cyfrwng Cymraeg fel eu dewis cyntaf ac ysgol cyfrwng Saesneg fel ail ddewis. Awgrymwyd bod yn rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gan rieni neu ofalwyr fynediad at yr iaith o'u dewis ar gyfer eu plentyn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i lynu at Safonau'r Gymraeg a rhoi sylw dyledus iddynt, ac mae'n gwerthfawrogi'r sylwadau a wnaed. Gwneir penderfyniadau ynghylch derbyniadau i ysgolion yn unol â meini prawf goralw pob awdurdod lleol ynghyd â threfn yr ysgolion a ffefrir fel y'i cyflwynwyd gan rieni. Felly, cyfrifoldeb y rhieni o hyd yw ystyried trefn yr ysgolion a ffefrir ganddynt yn ofalus. Gallai hynny gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu beidio. Nid yw'r egwyddor mai rhieni sydd â'r prif hawl i ddewis yn newid o ganlyniad i'r cynnig.

## Cwestiwn 8

Yn eich barn chi, a fyddai modd llunio neu addasu'r Rheoliadau arfaethedig ar gydlynu trefniadau derbyn i ysgolion er mwyn sicrhau bod:

- trefniadau yn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- fod y trefniadau'n lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ni roddodd y mwyafrif o'r ymatebwyr unrhyw ateb neu gwnaethant nodi na fyddai unrhyw effaith ar y Gymraeg.

O'r rhai a wnaeth sylw, roedd rhai yn credu nad yw'r trefniadau derbyn presennol yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a'u bod yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llawn. Awgrymwyd y gallai dull cydlynol ei gwneud yn haws i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gael cyfleoedd am addysg drwy'r Gymraeg.

Awgrymodd Estyn y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r trefniadau yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gysylltu â rhieni neu ofalwyr pan nad yw eu dewis cyntaf o ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael, hyd yn oed os ydynt wedi nodi ysgol cyfrwng iaith wahanol fel ail ddewis. Diben hyn yw sicrhau bod pob opsiwn o addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei ystyried ar gyfer plant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rhaid ystyried dewis rhieni yn unol â meini prawf goralw awdurdodau derbyn. Mae dyletswydd ar awdurdodau derbyn i sicrhau bod y dewisiadau yn y ffurflen gais yn adlewyrchu unrhyw awydd i'w plant fynd i ysgol cyfrwng Cymraeg. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ar hawl rhieni i ddewis nac yn cael unrhyw effaith negyddol na chadarnhaol ar sut mae'r Gymraeg yn cael ei thrin ochr yn ochr â'r Saesneg. Mae awdurdodau lleol yn parhau i fod â dyletswyddau mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

## Cwestiwn 9

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

Er nad oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi nodi sylw ar gyfer cwestiwn 9, ailadroddodd rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd yr hyn a grybwyllwyd mewn perthynas ag awdurdodau lleol llai a'r cynnydd posibl mewn llwyth gwaith.

Amlygodd un ymatebydd yr angen am wybodaeth a chyfathrebu clir pan fydd y cynllun cydlynol yn cael ei lansio yng Nghymru. Pwrpas hyn yw sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn gwneud cais i'r awdurdodau lleol yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir. Bydd angen cyfathrebu yn glir ag ysgolion ac awdurdodau lleol hefyd i sicrhau bod y broses o bontio i'r system newydd yn un esmwyth.

Awgrymodd un awdurdod lleol y dylid cynnwys ceisiadau a wneir i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ar ganol y flwyddyn yn y cynllun trefniadau derbyn cydlynol.

O safbwynt ysgolion ffydd, mynegodd un ymatebydd bryder nad yw'r ymgynghoriad yn nodi, nac yn ymddangos i fod wedi ystyried, sut y gallai ei argymhellion effeithio ar dderbyniadau sy'n ymwneud â chymeriad crefyddol ysgolion. Dylai'r argymhellion hefyd ei gwneud yn ofynnol i drin peidio â chredu mewn crefydd yn gyfartal â chael cred grefyddol, drwy ei gwneud yn glir y caiff mynediad i ysgolion seciwlar ei ddiogelu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn ddiolchgar am y sylwadau hyn ac maent wedi cael eu hystyried yn llawn, ond penderfynir bod y rhain tu hwnt i gwmpas yr hyn y mae'r Rheoliadau yn golygu ei gyflawni.

Bydd canllawiau yn cael eu darparu i awdurdodau lleol i'w cefnogi i gyflawni'r gofynion, cyn gwneud y diwygiadau angenrheidiol i'r Cod Derbyniadau Ysgol. Bydd y canllawiau hyn ar gael ar-lein i helpu rhieni i ddeall y broses. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol fydd cynnwys crynodeb o gynllun cydlynol yr awdurdod lleol yn ei brosbectws cyfansawdd bob blwyddyn, ynghyd ag esboniad clir o'r camau yn y broses o wneud cais am le mewn ysgol.

## Y Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad. Mae rhai mân-newidiadau technegol wedi'u gwneud i'r rheoliadau drafft. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn newid y polisi na'r effaith gyfreithiol. Cymerwyd pob ymateb i ystyriaeth wrth ddatblygu Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024, a wnaed o dan adran 89B o Ddeddf 1998.

Bydd y Rheoliadau newydd yn cael eu gosod gerbron y Senedd.

# Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

| |
|---|
| Cyngor Sir Ceredigion |
| Cyngor Sir Powys |
| Pwyllgor Ymgynghorol Llywodraethwyr, Cyngor Sir Powys |
| Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig |
| Ysgol Sant Mihangel - Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru |
| Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol |
| Cyngor Dinas Casnewydd a chyrff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir yng Nghasnewydd. |
| Estyn |
| Cyngor Sir Fynwy |
| Cyngor Sir Benfro |
| UCAC |
| Cyngor Sir Caerdydd - Cadeirydd Fforwm Derbyn Caerdydd |
| Cyngor Sir Bro Morgannwg |